Ysgol Glan y Môr

Bwletin i Rieni: Pasg 2013

DYDDIADAU PWYSIG

Mawrth

22 Ysgol yn cau am y Gwyliau
25 - 5/4 Gwyliau Pasg

Ebrill

8 Ysgol yn ail gychwyn
8 - 12 Wythnos Profiad Gwaith Bl 10
19 Adroddiad Bl 10
23 **Noson Rieni Bl 10 (3.45 - 5.45)**

Mai

6 Gwyliau Gwyl Banc Mai
7 Seremoni Ffeil Cynnydd i Fl 11
(Dyddiad wedi newid o'r 8fed)
13 Arholiadau TGAU yn cychwyn
17 Mabolgampau Ysgol **(tywydd yn caniatau)**
21 **Arholiadau Bl 9.**
21 Clinic Cymorth
24 Ysgol yn cau am y

Addysg Grefyddol

Trefnwyd gwasanaeth arbennig ar gyfer yr ysgol gyfan i Ddathlu Dydd Gŵyl Dewi ar Fawrth y 1af. Cafwyd darlleniadau amrywiol gan ddisgyblion o bob blwyddyn a neges ar bwysigrwydd defnydd o'r Gymraeg gan Mr Noel Dyer. Trefnwyd yr eitemau cerddorol gan Mrs Einir W Jones. Bu Rachel o fudiad Cristnogol Torbwynt i mewn at flwyddyn 10 er mwyn sôn am sancteiddrwydd bywyd fel rhan o'r uned Abach. Bu'n cyflwyno gwers i flwyddyn 9 hefyd ar thema Masnachu Pobl fel rhan o'r uned ar Hawliau

GWISG YSGOL Rydym yn ddiolchgar am eich cefnogaeth i sicrhau fod pawb yn cadw at ein rheolau gwisg ysgol a hoffwn atgoffa bawb mai **trowsus PLAEN du nid jeans** ac **esgidiau/ trainers plaen DU** yn unig sy'n dderbyniol. Ar ôl y gwyliau Pasg mi fydd hi'n bosib i'r genethod wisgo sgert wyrdd swyddogol yr ysgol(ar werth yn swyddfa'r ysgol) Mae caniatad i'r genethod wisgo esgidiau fflat du a theits du trwchus neu liw croen **yn unig** gyda'r sgert.
Mae'n bwysig i'ch plentyn wisgo'r wisg lawn gywir bob dydd - sef crys polo gwyn a crys-chwys gwyrdd.

Mae eitemau o'r wisg ysgol ar werth yn yr ysgol.

Ymweliad Daearyddiaeth i Barc Cenedlaethol Eryri

Bu criw o ddisgyblion blwyddyn 11 sy'n astudio Daearyddiaeth yn ymweld â rhannau o'r Parc Cenedlaethol er mwyn gweld effeithiau dyn ar yr amgylchedd a rhoddwyd sylw i'r gwaith sy'n cael ei wneud i ddatrys rhai o'r problemau e.e. Problemau traffig

Urdd Llongyfarchiadau i'r parti cerdd dant ar ennill y wobr gyntaf yn Eisteddfod Sir yr Urdd. Pob lwc iddynt ac i Mirain Evans fu'n fuddugol ar yr Alaw Werin (Bl 13 ac iau) yn Sir Benfro.

5 x 60 Bu cyfle i'ch plentyn gael gwersi hwylio yn yr Hafan, Pwllheli fel rhan o weithgaredd 5X60 a chynllun CHIPAC ar **Nos Wener 12fed Ebrill 5 - 7.30 pm.** Y gost fydd £18 (£3 y sesiwn). Ffuflenni ar gael yn swyddfa'r ysgol.

Golff - Bu Daniel Williams Bl 9 a Sean Davies Bl 9 yn llwyddiannus iawn mewn cystadleuaeth golff wedi ei noddi gan "Shelter Cymru". Ennillodd y ddau y rownd 1af (Gwynedd) a bydd y ddau yn mynd ymlaen i chwarae'r rownd nesaf (gweddill Cymru). Pob lwc iddynt.

Adran Mathemateg Cymerodd rhai disgyblion Bl 7 ac 8 ran yn gystadleuaeth Diwrnod Mathemateg Dros y Byd a gynhaliwyd ar ddechrau Mawrth. Y rhai o Ysgol Glan y Môr a ddaeth i'r brig oedd:

1af - Moli Williams (7E) (629 pt); 2il - Rhys Owen (7P) (411pt); 3ydd - Peryf ab Owain (7P) (386 pt);
4ydd - Cadi Ellis (7E) (344); 5ed - Elin Roberts (7E) (335).

Mi fuodd 58 o ddisgyblion Bl 8 yn cymryd rhan yng nghystadleuaeth Fathemateg y Gymdeithas Wyddonol. Edrychwn ymlaen at gael canlyniadau'r gystadleuaeth y tymor nesaf.

Trip Sgio'r Ysgol 2013

Rhwng yr 8fed a'r 15fed o Chwefror bu i 24 o ddisgyblion fynd ar drip sgïo i Santa Caterina yn yr Eidal. Buont yn sgïo, sglefrio, siopa ac yn cynnal eisteddfod ddigri. Aeth Mr Kelvin Pleming, Mrs Sianelen Pleming a Mr Erddyn Davies gyda nhw. Roedd ambell i godwm ond daeth pawb adref yn saff yn y diwedd.

Cystadleuaeth draffts rhwng staff a disgyblion.

Cynhaliwyd cystadleuaeth cyffrous iawn o gemau draffts yn y llyfrgell rhwng staff yr ysgol a disgyblion. Y sgor derfynnol oedd 11 gem i 6 i'r staff gyda 3 gem yn gyfartal! Diolch i bawb a gefnogodd.

'Clwb Cwl.'(llawsgrifen a gweithgareddau)

Yn ystod cyfarfod olaf tymor yma, bu'r aelodau yn ymweld â chanolfan Parc Glasfryn, Y Ffor, lle cawsant fwynhau gem o fowlio 10.

Adran Gwyddoniaeth: Bydd amrhyw o ddisgyblion Blwyddyn 10 ac 11 yn mynychu sesiynau adolygu Gwyddoniaeth ym Mhrifysgol Bangor dros wyliau'r Pasg.

DIWRNOD Y LLYFR—MAWRTH 4YDD.

Cynhaliwyd gweithgaredd 'Bocs Lwcus Llyfrau' yn y llyfrgell yn ystod amser cinio ar 'Ddiwrnod y Llyfr' eleni. Roedd y llyfrgell ar agor i'r disgyblion a staff a cafodd pawb oedd yna cyfle i ddewis llyfr o'r bocs. Casglwyd £20.00 ar y diwrnod tuag at 'Comic Relief'.

Readathon

Mae blynyddoedd 7 ac 8 wedi cychwyn ar yr ymgyrch darllen noddedig Readathon yn ystod eu gwersi saesneg yn y dosbarth ac yn y llyfrgell. Bydd yr arian a godi'r yn mynd tuag at elusennau 'Clic Sargent' a'r 'Roald Dahl Foundation' sydd yn cefnogi plant sydd yn dioddef o wahanol afiechydon.

Cystadleuaeth 'Diwrnod Y Llyfr'-Mawrth y 4ydd.

Cynhaliwyd cystadleuaeth yn y llyfrgell i gynllunio llyfryn yn ymwneud a llyfrau. Llongyfarchiadau i'r canlynol am lwyddo; 1af—Lowri Elen Roberts 8A; Gydradd 2ail—Joe Palmer 7A/Iwan Lloyd Roberts 7A; Gydradd 3ydd—Sera Jones 7R/Megan Jenkins 8A. Derbyniodd yr enillwyr lyfr ac wy Pasg.

Comic Relief 2013

Diolch i'r holl ddisgyblion wnaeth godi arian at Comic Relief. Casglwyd £750 at yr elusen.

"Bake Off"

Dechreuodd y syniad pan welodd Catrin raglen teledu 'The Great British Bake Off'. Yna daeth i'r ysgol a son am y syniad o gael Bake Off yn yr Ysgol i hel arian ar gyfer Comic Relief. Roedd ei ffrindiau Megan ac Erin yn hoff iawn o'r syniad, ac yna aethon i son am y syniad wrth y Pennaeth Mrs Menai Jones. Roedd hi hefyd yn hoff iawn o'r syniad felly fe ddechreuon fanylu ar y trefniadau. Roedd llawer i'w drefnu, yn cynnwys dewis y disgyblion ac athrawon a fyddai'n cymryd rhan (ar hap) . Ar ôl dewis y disgyblion (9 o flwyddyn 7 a 9 o flwyddyn 8) a'r athrawon i gyd, roedd yn rhaid i'w rhannu nhw i grŵpiau o dri, yn cynnwys un athro/athrawes a dau ddisgybl mewn un grŵp, Yna roedd rhaid hel noddwyr i gyfrannu arian er mwyn medru prynu cynhwysion. Wedyn roedd yn rhaid dewis ryseitiau ar gyfer y cystadleuwyr. Dewiswyd Bisgedi Smarties ar gyfer blwyddyn 7 (ac athrawon) dydd Llun, a dewiswyd cacenau 'rocky road' ar gyfer blwyddyn 8 (ac athrawon) dydd Mawrth, ac ar gyfer y rownd derfynol (dau dîm o ddydd Llun a dau dîm o ddydd Mawrth) dewiswyd 'roulade' siocled. Roedd angen beirniadu eu Bisgedi/cacennau ac yn y blaen, felly dewiswyd Mrs Menai Jones a Mrs Caryl Jones (coginio) i fod yn feirniaid. Cafodd y digwyddiad yma ei ffilmio yn cynnwys y camgymeriadau a'r pethau doniol. Roeddy ffilm yn cael ei ddangos yn y neuadd. Wrth wneud hyn codwyd £135 ar gyfer Comic Relief! Yn y neuadd ar ôl gorffen gweld y ffilm, datgelwyd enw'r grŵp buddugol. Ar enillwyr oedd ... Grŵp Mr Tom Williams (athro chwaraeon), Eli Gryffudd o 8E ac Elis Bryn o 8P. Roeddyr enillwyr yn cael gwobr o ffedog (yr un) gyda'r neges 'Cystadleuaeth Coginio Comic Relief Ysgol Glan y Môr', a noddwyd ac a wnaethpwyd gan Megan Jenkins .

Cadi Ellis a Lowri Hughes (bl 7) wedi gwisgo fel dynion

Alaw Pritchard, Cerys Williams a Llio Griffiths di bod yn brysur iawn yn paratoi a gwerthu cacenni

Erin Povey, Catrin Jones a Rhiannon Jenkins - brysur yn cyfri pres y "Bake Off"

Criw Gwisgo Onezies! (Pawb ond Mrs Jones!!!)

Chwaraeon

Mae'r ysgol wedi bod yn cystadlu mewn amrywiaeth o weithgareddau'r tymor yma yn cynnwys traws gwlad, hoci, pêl droed a rygbi. Yn y gystadleuaeth traws gwlad Meirion Dwyfor cafodd yr ysgol lwyddiant ysgubol : Twm Bryn, Jason Banks, Cai Bullard, Kian Pritchard, Cerys Studt, Niamh Gower, Lois Jones, Seren Bowen, Cerys Jones, Sophie Lamond, Harri Hughes, Gwern Griffith, Deio Davies, Sian Rosewarne, Steffi Studt, Morfudd Ifans ac Elin Daly yn mynd ymlaen i gystadleuaeth Eryri. Fe lwyddodd Twm Bryn, Kian Pritchard, Cerys Studt, Niamh Gower a Harri Hughes fynd ymlaen i bencampwriaeth Cymru.

Mae tîm hoci genethod blynyddoedd 7-9 wedi cystadlu yng nghwpan Eryri eleni. Fe lwyddodd yr ysgol i orffen yn yr ail safle yn colli allan yn anlwcus i ysgol Botwnnog ar wahaniaeth goliau. Fe gyrhaeddodd hogiau blwyddyn saith a hogiau blwyddyn wyth rownd derfynol cwpan pêl droed Gwynedd. Yn anffodus fe gollodd y tîm blwyddyn saith i Ysgol Syr Hugh Owen, Caernarfon o dair gôl i un, ac fe gollodd y tîm blwyddyn wyth i Ysgol Friars, Bangor o ddwy gôl i ddim.

Mae dau dîm rygbi'r ysgol wedi cyrraedd chwarteri cwpan Eryri ar ôl dwy fuddugoliaeth ysgubol yn erbyn Ysgol Syr Hugh Owen, Caernarfon.

O ran llwyddiant unigol, ar y trydydd o Fawrth fuodd Ifan Roberts o flwyddyn wyth yn cynrychioli Gogledd Ddwyrain Cymru mewn cystadleuaeth athletau dan do. Fe enillodd ei dîm a fydd y tîm yn mynd ymlaen i gynrychioli Cymru yn rowndiau terfynol Prydain ar Ebrill y seithfed. Rydym yn dymuno pob lwc iddo!

Cystadleuaeth drafftiau a gwyddbwyll

Roedd hi'n brynhawn braf o Fawrth pan gychwynnodd aelodau timau drafftiau a gwyddbwyll yr ysgol am Fotwnnog yng nghwmni Mr Huw Meilir Williams a Mrs Jane Jones. Y llynedd Botwnnog fu'n fuddugol a nhw lwyddodd i gipio'r darian ond tybed a allai Glan y Môr dalu'r pwyth yn ôl eleni? Roedd digon o gyffro a thyndra wrth i'r criw gychwyn yn y bws mini gyda Sam Humphries wrth y llyw.

Roedd y croeso ym Motwnnog gan y disgyblion, Mrs H Brunelli a Mr G Jones yn gynnes a phawb yn ysu i gael cychwyn ar y gemau.

Gwyddbwyll: O safbwynt Glan y Môr llwyddodd Cian Ireland a Siôn Adams i guro eu gemau, cafodd Owain Rhys gêm gyfartal ond colli a wnaeth Luke Walker, Rhys Williams, Hari Hughes, a Peryf ab Owain. Colli hefyd fu hanes Alan Rowlands yn y pendraw ond bu'n rhaid chwarae pedair gêm cyn i hyn ddigwydd.Sgôr terfynol y gwyddbwyll felly oedd Botwnnog 5 a hanner, Glan y Môr 2 a hanner.

Drafftiau: Unwaith eto cafwyd gornestau agos ond yn y pen draw Botwnnog oedd yn fuddugol o 5 i 3. Yr enillwyr i Glan y Môr oedd Harri Morris, Rhys Gough a Rhys Jones. Collodd Eifion Pari, Ceirion ab Owain, Georgina Hildyard, Owain Hedd a Rhys Owen eu gemau.

Llongyfarchiadau mawr felly i Ysgol Botwnnog am lwyddo i gadw'i gafael ar y darian. Braf oedd gweld pawb yn mwynhau prynhawn difyr yng nghwmni disgyblion cyffelyb o ysgol arall a diolch yn fawr am y cacennau hanner amser. Hyfryd iawn! Efallai mai blwyddyn Ysgol Glan y Môr fydd hi yn 2014! Cawn weld!

Llongyfarchiadau i Gethin Owen Bl 8. fu yn hwylio dros y penwythnos (16 - 17 Mawrth) gyda'r squad Cenedlaethol "Optimist " yn Weymouth. Mi lwyddodd i ddod yn 6ed a ennillodd y cwpan garfan canolradd. Mae hefyd wedi derbyn gwahaoddiad i gynrychiolir Prydain, eto eleni mewn Pencampwriaeth Hwylio Rhyngwladol yn yr Iseldiroedd dros wyliau'r Pasg. Da iawn chdi Gethin.

Mae hanes Gethin yn ymddangos yn y cylchgrawn "Yachts and Yachting" - gweler y linc isod.

http://www.yachtsandyachting.com/news/168459/Optimist-Joint-Squads-Weekend-at-Weymouth

Gethin gyda gweddill y criw

Peryf ab Owain yn meddwl am ei symudiad nesa

TARGED % PRESENOLDEB YR YSGOL

= 95%

Mae pob diwrnod yn cyfri!!!